



Swydd: Aelod o'r TÎM GOFAL CWSMER
Adran: BLAEN TŶ
Yn atebol i: Rheolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer

Ceisiadau ar Ffurflen Gais gan cynnwys CV ar frys

Cyfweliadau: Dyddiad i'w gadarnhau
Cyflog: £16,970-£17,920
Oriau: 40 awr yr wythnos
[ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol, penwythnosau a Gwyliau Banc]

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:
Rhian Evans Iona Davies
01286 685 250 **01286 685 218**
rhian.evans@galericaernarfon.com **iona.davies@galericaernarfon.com**

Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'n Tîm Gofal Cwsmer?

Yn wyneb cyhoeddus i Galeri, mae disgwyl i aelodau'r tîm fod yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid mewn lleoliad arbennig ac awyrgylch diddorol, amrywiol a phrysur.

Prif bwrpas y Swydd:

I weithio llaw yn llaw hefo Rheolwyr a staff presennol Galeri i sicrhau profiad eithriadol a chofiadwy i'n ymwelwyr.

Fe fyddwch yn weithiwr positif, hyblyg, amlorchwyl a blaenweithgar fydd yn:

- Ymdrin â phryniant, gwerthiant ac uwchwerthiant yn y Caffi, a'r Swyddfa Docynnau
- Rhoi gwybodaeth perthnasol a thrylwyr am y Ganolfan a'i gweithrediadau/digwyddiadau
- Ymateb i ymholiadau a'u trosi i werthiant
- Delio yn effeithiol hefo unrhyw gwynion neu gamgymeriadau a'u perchnogi
- Gweithredu a bod yn gyfrifol am holl ddyletswyddau'r Swyddfa Docynnau yn ystod y shift honno
- Gweini bwyd a diod yn unol âg archebion ac anghenion dietegol y Cwsmer
- Cyd-weithio hefo'r Tim Arlwyo i hybu'r Ganolfan fel bwyty safonol

- Rhedeg digwyddiadau byw yn broffesiynol, diogel ac effeithiol pan ar Ddyletswydd Rheolwr Blaen Tŷ (Digwyddiadau a Ffilmiau)

Mae'r swydd yma yn gyfle unigryw i ddatblygu sgiliau sylfaenol, amrywiol a hunan hyder mewn awyrgylch greadigol sydd yn cynnig cyflog teg i'r unigolion sy'n dangos safonau rhagorol yn gyson.

Bydd hyfforddiant priodol ar gael i'r ymgeisydd llwyddiannus gyda'r agwedd sy'n sefyll allan.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Y Swyddfa Docynnau:

Rhoi gwasanaeth rhagorol a chyson i holl gwsmeriaid Galeri

Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru beth sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni

Sicrhau bod yr adran yn barod am fusnes pob amser drwy fod yn weladwy, goruchwylio cyson o'r ardal, glanhau, monitro lefelau stoc deunydd marchnata a thaclusrwydd cyffredinol

Gweithredu pob agwedd o dyletswyddau'r Swyddfa Docynnau boed o'n lanweithdra, taclusrwydd, gwaith gweinyddol, balansio a chywirdeb adroddiadau ayyb, gwaith tenantiaid a dod i adnabod ein cwsmeriaid

Gweithredu rhaglen 'ticketsolve' y Swyddfa Docynnau i'w chyfanrwydd (fe roddir Hyfforddiant)

Cyfri tiliau a fflot arian, balansio sesiynnau gwerthu a datrys unrhyw wahaniaethau gyda'r lleiafswm o gyfeiriadau at Goruchwylwraig y Swyddfa Docynnau/Rheolwyr. Darparu arian yn barod i'w falansio a'i fancio a chadw llygiad ar anghenion newid mân yr adrannau

Cefnogi gweithgareddau marchnata a mewnbwn y data sy'n berthnasol i'r rhaglen 'ticketsolve'

Sicrhau bod galwadau ffon yn cael eu hateb mewn dull proffesiynol ac amserol a bod y swtisfwrdd yn gweithredu'n effeithiol tu allan i oriau agor

Trosglwyddo negeseuon yn gywir ac yn brydlon i'r adrannau perthnasol

Rheoli a gwarchod gwybodaeth cyfrinachol yn unol â deddfwriaeth a'u cyfeirio

Monitro a nodi anghenion stoc cyson

Y Caffi:

Rhoi gwasanaeth rhagorol a chyson i holl gwsmeriaid Galeri

Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru beth sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni

Sicrhau bod yr adran ynddi yn barod am fusnes pob amser drwy fod yn weladwy, goruchwyllo a glanhau/clirio byrddau / monitro lefelau stoc yn gyson

Darparu, gosod a gweini paratodau arlwyo a lluniaeth i'r ystafelloedd Cyfarfod/ Priodasau ac Achlysuron

Adrodd unrhyw ddiffygion offer neu arall at y Rheolwr

Bod yn ymwybodol o gynnwys y fwydlen/ cynnigion arbennig y dydd ac anghenion dietegol y cwsmer

Cyfri tiliau a fflot arian, balansio sesiynnau gwerthu a datrys unrhyw wahaniaethau gyda'r lleiafswm o gyfeiriadau at y Rheolwyr

Darparu arian yn barod i'w falansio a'i fancio a chadw llygiad ar anghenion newid mân yr adrannau

Monitro a nodi anghenion stoc cyson y Caffi a'r Bar- ail gyflenwi oergelloedd yn gyson

Rheolwr Blaen Ty:

Rheoli cynulleidfa a staff y digwyddiadau fydd yn mynd ymlaen yn y Theatr a'r Ffilmiau yn y sinemau newydd- dod i adnabod ein cwsmeriaid

Cyd-weithio a chyfathrebu'n gyson hefo'r Technegwyr a'r Swyddfa Docynnau

Arwain a chydlynu Stiwardiaid mewn digwyddiadau

Cefnogi gweithgareddau marchnata a mewnbwn y data sy'n berthnasol i'r rhaglen 'ticketsolve'

Ymateb yn effeithiol i ymholiadau cwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion gyda'r lleiafswm o gyfeiriadau at eraill

Sicrhau glanweithdra a thaclusrwydd yr ardaloedd

Yn Gyffredinol:

Cyfarfod gofynnion hyfforddiant a datblygiad y swydd

Ymgymrud â unrhyw ddyletswyddau arall sy'n gymesurol â lefel cyfrifoldeb y swydd

Cydymffurfio efo Polisiau Cyflogaeth a Iechyd a Diogelwch y Cwmni

Cymhwyseddau Ymddygiad / Sgiliau

Y gallu i wneud gwahaniaeth positif a chofiadwy i'r cwsmer, trosgludo lefel uchel o wasanaeth heb oruchwyliaeth barhaol

Y gallu i weithio yn rhan o dim, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

Sgiliau rhifiadol i allu cyfri yn sydyn a sicrhau cywirdeb cyson o'r fflôt, til a newid mân, sgiliau cyfrifiadurol

Sgiliau cyfathrebu effeithiol ar lafar neu'n ysgrifenedig

Dangos sylw manwl at fanylion ac arddangos safon uchel o waith, rheoli amser a hyblygrwydd

Awyddus i ddatblygu eu hunain a dysgu sgiliau newydd

Unigolyn sy'n gwerthfawrogi ac sy'n ymrwymedig i ddiwylliant gwahanredol y Cwmni

Arall:

Gallu gweithio oriau anghymdeithasol

Gallu gweithio patrwm rota hyblyg e.e gyda'r nosau, penwythnosau/Gwyliau Banc

Manyldeb Person:

Egniol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol

Arddangos hunan gred a gonestrwydd

Hyderus i gyfrannu syniadau er mwyn gwella gwasanaeth cwsmer

Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Yn awyddus i ddatblygu gyrfa mewn byd celfyddydol a chreadigol



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_

Facebook: /GaleriCaernarfon